Rhaglen o Waith Priffyrdd

Gwasanaethau Stryd a Chludiant

Mae'r wybodaeth ganlynol yn manylu'r rhaglen arfaethedig o waith gwella priffyrdd i'w gynnal yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23 gan Wasanaethau Stryd a Chludiant Cyngor Sir y Fflint.

Mae'r rhaglenni wedi eu dylunio i gefnogi amcanion strategol y Cyngor Sir i wella ffyrdd a chludiant.

Mae'r rhaglenni gwella a ariannwyd drwy refeniw a chyfalaf yn ymwneud â thriniaethau strwythurol a wyneb cerbytffordd a llwybr troed yn cael eu blaenoriaethu o ddata arolwg cyflwr blynyddol ac archwiliad gweledol i wella isadeiledd priffyrdd o fewn Cyngor Sir y Fflint.

Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd

Drwy sylweddoli y gellir ond lleihau'r ôl-groniad presennol o waith cynnal strwythurol cerbytffyrdd a llwybrau troed drwy fabwysiadu dull strategol hirdymor i wella isadeiledd priffyrdd, mae Cyngor Sir y Fflint mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull Cymru gyfan ar gyfer Cynllunio i Reoli Asedau Priffyrdd. Mae'r fethodoleg ganlynol yn egluro'r egwyddorion sy'n deillio i flaenoriaethu rhaglenni gwaith cynnal a chadw wedi eu cynllunio:-

- Asesiad mecanyddol a gweledol o isadeiledd y cerbytffordd yn flynyddol. Y wybodaeth a ddehonglir gan System gyfrifiadurol Rheoli Palmentydd y Deyrnas Unedig (UKPMS) i ddangos lefel dirywiad ffyrdd unigol.
- Asesiad gweledol o'r isadeiledd llwybr troed yn flynyddol. Y wybodaeth sy'n cael ei mewnbynnu i system rheoli data i roi syniad o'r lefel o ddirywiad llwybrau unigol.
- Yna mae allbwn UKPMS a ffynonellau data eraill yn ddarostyngedig i ddadansoddiad peirianyddol i ddarparu strategaethau hirdymor ar gyfer gwella sy'n cymryd cynlluniau corfforaethol i ystyriaeth ar gyfer datblygiad economaidd a phreswyl, cynllunio cludiant rhanbarthol, anghenion ar sail cymuned ac ystadegau damwain lleol.
- Mae rhaglenni gwella yn cael eu paratoi ar sail blaenoriaeth gyda'r egwyddor "gwaethaf gyntaf" y rheol gyffredinol.

Mae dull prisio oes cyfan yn cael ei ddefnyddio i bennu rhaglenni ar gyfer amrywiol ffurf o brosesau gwella e.e.

» Gwelliant strwythurol mewn ffurf ailadeiladu ble mae lefel dirywio'r ased yn fawr. Mae costau cysylltiedig â'r math yma o welliant yn uchel ac mae'n arferiad costau oes cyfan i gyflwyno rhaglenni trin arwyneb yn ystod camau cynnar dirywiad i ymestyn oes ased i leihau'r lefel o waith ailadeiladu sy'n rhoi pwysau mawr ar gyllid sydd ar gael.

» Disodli neu gryfhau arwyneb.

» Trin arwyneb ffordd i ailsefydlu gweadau arwyneb neu ymestyn oes arwyneb drwy ddiogelu cwrs arwyneb sy'n dangos arwyddion buan o ddirywiad drwy golli agregad / glynwr.

» Ailadeiladu arwyneb cerbytffordd sy'n strwythurol gadarn ond sy'n dangos ymwrthedd llithro drwy bolisio'r agregad o fewn y cwrs arwyneb.

» Mwyhau budd cost adnoddau ariannol sy'n rhaid ei ystyried o'r budd i gymunedau drwy gydnabod ardaloedd economaidd a chymdeithasol lleol o weithgaredd ble mae ffyrdd ar lefel tebyg o ddirywiad o dan ystyriaeth ac adnoddau yn gyfyngedig. Er enghraifft, bydd llwybr troed sy'n agos at ardal siopa fawr neu ysgol yn cael blaenoriaeth dros lwybr troed tebyg mewn ardal wledig sydd â lefelau isel o bobl yn cerdded.

Mae'r categoriau canlynol wedi eu cynnwys yn y rhestr o gynlluniau wedi eu rhaglennu i nodi'r ffactorau sy'n cefnogi eu cynnwys yn y rhaglen (Rheswm dros weithio mewn tablau isod):-

A. Nodwyd drwy broses arolwg cyflwr.

B. Nodwyd drwy ymchwiliadau damwain fel bod yn safle clwstwr damweiniau neu'n ddarostyngedig i Beiriant Ymchwilio Arferol Cyfernod Grym Tua'r Ochr (SCRIM).

C. Yn ddarostyngedig i waith adfer cynnal a chadw uchel.

Sylwer

Er y gwnaed pob ymdrech i gyflawni rhaglen ddiffiniol fydd yn darparu rheolaeth effeithiol o'r asedau priffyrdd, gall fod yn destun newid mewn cynnwys a manylion drwy'r flwyddyn. Mae newidiadau o'r fath yn gallu codi o'r angen i fynd i'r afael â'r galw cynnal a chadw anrhagweledig sy'n codi yn ystod y flwyddyn e.e. gwaith cyfleustodau cyhoeddus brys ac addasiadau i'r gyllideb.

Rhaglen o Waith Priffyrdd -

Cynlluniau Ailwynebu Cerbytffyrdd - 2022/23

Mae'r cynlluniau a restrwyd yn y rhaglenni canlynol wedi eu trefnu i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23. Tra y gwneir pob ymdrech i gyflawni'r cynigion hyn, gall amgylchiadau annisgwyl arwain at amrywiadau o'r rhaglen a arddangosir. Gall y rhaglen hon hefyd fod yn destun newid os bydd angen gwneud addasiadau oherwydd gweithgaredd Defnydd Cyhoeddus..

Rhif y Ffordd	Lleoliad	Ward	Rheswm dros y Gwaith
B5127	B5127 MILL LANE, BWCLE (A549 GOLEUADAU TRAFFIG I LINTHORPE ROAD)	BWCLE PENTROBIN/ MYNYDD BWCLE	A
A549	A549 LÔN ARGOED, BWCLE	MYNYDD BWCLE	A
A548	A548 CYLCHFAN BROKENBANK, PARC DIWYDIANNOL GLANNAU DYFRDWY	CANOL CEI CONNAH	A
C136	FFORDD BURNTWOOD, DRURY (TAFARN Y PARROT I DROSBONT YR A55)	BWCLE PENTROBIN	A
A549	A549 PREN HILL, BWCLE	ARGOED A NEW BRIGHTON/ GORLLEWIN BUCKLEY BISTRE/ MYNYDD BWCLE	A
B5129	B5129 PONT RHEILFFORDD SHOTTON I OLEUADAU TRAFFIG LÔN SHOTTON **(AR Y CYD Â'R CYNLLUN TEITHIO LLESOL A RHWYDWAITH INTEGREDIG)**	DWYRAIN SHOTTON A SHOTTON UCHAF	A
A548	A548 DERBY TERRACE, MAES GLAS	MAES GLAS / DWYRAIN TREFFYNNON	A
U/C	ENGLEFIELD AVENUE, CEI CONNAH (RHAN)	CANOL CEI CONNAH	A
U/C	FFORDD PENTREF BERTHEN-GAM (RHAN)	LLANASA A THRELAWNYD	A
B5125	B5125 Y BRIFFORDD, PENARLÂG (CYFFORDD A550 I BIRCH RISE)	PENARLÂG MANCOT / PENARLÂG EWLO	A
A5104	A5104 PONTYBODKIN (CYFFORDD COED-LLAI I RYD OSBER)	LLANFYNYDD / TREUDDYN	A
B5121	B5121 FFORDD MAES GLAS, MAES GLAS	MAES GLAS	A
A5026	A5026 STRYD CHWITFFORDD, TREFFYNNON	CANOL TREFFYNNON	A
U/C	LLWYNI DRIVE, CEI CONNAH	DE CEI CONNAH	A
C89	FFORDD PEN Y MAES, TREFFYNNON (CYFFORDD A5026 I STRAND PARK)	CANOL TREFFYNNON / DWYRAIN TREFFYNNON	A
B5444	B5444 RHAN UCHAF STRYD FAWR, YR WYDDGRUG	DWYRAIN YR WYDDGRUG/GORLLEWIN YR WYDDGRUG / BRONCOED YR WYDDGRUG	A
C117	FFORDD Y RHOS, TREUDDYN (MYNWENT I FFORDD Y LLAN)	TREUDDYN	A
U/C	STRYD TYDDYN/STRYD GROSVENOR, YR WYDDGRUG	DWYRAIN YR WYDDGRUG	A

Rhaglen o Waith Priffyrdd -
Gwaith Trin Arwyneb Ffordd Gerbydau - 2022/23

Mae'r cynlluniau a restrwyd yn y rhaglenni canlynol wedi eu trefnu i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23. Tra y gwneir pob ymdrech i gyflawni'r cynigion hyn, gall amgylchiadau annisgwyl arwain at amrywiadau o'r rhaglen a arddangosir. Gall y rhaglen hon hefyd fod yn destun newid os bydd angen gwneud addasiadau oherwydd gweithgaredd Defnydd Cyhoeddus.

Rhif y Ffordd	Lleoliad	Ward	Rheswm dros y Gwaith
C54	CYFFORDD MAEN ACHWYFAEN I GROESFFORDD BERTHEN-GAM	CHWITFFORDD / LLANASA A THRELAWNYD	A
U/C	LÔN YN ARWAIN O'R A541 HENDRE TUAG AT BARC GWYLIAU FRON FARM	CILCAIN	A
C97	BUTCHERS ARMS I FFORDD PLAS UCHA, NERCWYS	GWERNAFFIELD A GWERNYMYNYDD	A
U/C	FFORDD RHYDYMWYN, Y WAUN	GWERNAFFIELD A GWERNYMYNYDD	A
U/C	GREEN LANE, EWLO	PENARLÂG EWLO	A
C117	FFORDD Y RHOS, TREUDDYN (O'R FYNWENT I YMUNO CYN CYFFORDD A5104)	TREUDDYN	A
C109	LÔN FAGL, YR HÔB (A541 I YSGOL UWCHRADD CASTELL ALUN)	YR HÔB	A

Os hoffech dderbyn copi o'r cyhoeddiad hwn yn eich iaith eich hun neu mewn fformat gwahanol fel print bras, braille neu ar dâp, gallwch ffonio 01352 704776